

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	24 Ionawr 2023
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Beca Brown
Swyddog Cyswllt:	Garem Jackson
Rhif Ffôn Cyswllt:	32089
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3 CYFLWYNIAD

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor, gwaith dydd i ddydd yr Adran a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022. Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod y flwyddyn. Rwyf yn arbennig o falch o berfformiad yr Adran a'n hysgolion, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

4.1 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

4.1.1 Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

4.1.2 Yn ddiweddar, mae Ysgol Y Faenol wedi derbyn estyniad sylweddol sydd wedi galluogi cynyddu capasiti'r ysgol i 315 o ddysgwyr. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, bu i'r estyniad gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ac mae'r dysgwyr bellach yn gallu manteisio ar yr amgylchedd dysgu newydd. Er hynny, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Mae'r

adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd wedi'i chodi fel rhan o'r datblygiad.

- 4.1.3 Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth prosiect Ysgol Ein Harglwyddes wedi eu cytuno gyda'r Esgobaeth, sy'n golygu y bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am hwyluso trefniadau'r prosiect a chyflwyno'r achos fusnes i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod yr anghenion, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau), ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned, gyda chynlluniau cysyniadol wedi eu creu ar gyfer sefydlu Ysgol Ein Harglwyddes ar y safle hwnnw.
- 4.1.4 Yn sgil y buddsoddiad diweddar yn Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, rwyf i a'r Adran yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ymhellach a gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael hefyd. Bydd hyn yn gyfrwng i wella profiad y dysgwr a galluogi'r ysgol i ddarparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif. Rwy'n edrych ymlaen i weld ein bwriadau ar gyfer Ysgol Hirael yn symud ymlaen dros y misoedd nesaf.
- 4.1.5 Rwyf i a'r Adran hefyd yn llwyr ymwybodol nad oes gan Ysgol Tryfan yr adnoddau y byddem yn dymuno iddi ei chael a bod hynny'n effeithio ar brofiad y dysgwr. O ganlyniad, rydym wedi cychwyn y broses o ystyried y cyfleoedd posib ar gyfer sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yno, gan sicrhau dilyniant priodol i'r buddsoddiad sydd eisoes wedi ei wneud yn yr ysgolion cynradd yn ardal Penrhosgarnedd o'r ddinas.
- 4.1.6 Yn sgil cyflwr gwael adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Trefferthyr, byddwn yn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu. Mae'r Cabinet eisoes wedi cefnogi'r bwriad i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 o ddysgwyr, ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle'r A497 yn unol â'r drefn statudol. Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais cynllunio ar gyfer adleoli'r ysgol, cododd dau fater technegol ynglŷn â'r safle, ond bellach mae'r gwaith archeolegol wedi ei gwblhau, ac mae arolwg llwybrau saff i'r ysgol hefyd wedi ei gwblhau ac adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r Adran Gynllunio. Yn sgil y cynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu yn sgil Covid, Brexit, ynghyd â chwyddiant, dw i'n hynod o falch fod y Cabinet wedi cymeradwyo cynyddu'r gyllideb ar gyfer gwireddu'r ysgol newydd i £8.1m. Edrychaf ymlaen i weld y gwaith adeiladu'n symud yn ei flaen yn fuan ac i weld y plant yn manteisio ar y cyfleusterau gorau un.
- 4.1.7 Yn sgil amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn Addysg ôl-16 yn Arfon, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i'r Adran ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda phenaethiaid, llywodraethwyr, staff, rhieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach er mwyn cyflwyno'r weledigaeth newydd ar gyfer addysg ôl-16, ynghyd â chasglu barn a syniadau am y ffordd orau i wireddu'r weledigaeth. Rydym wedi adrodd ar negeseuon cychwynnol yr ymgysylltu yma gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror y llynedd, ac rydym nawr mewn sefyllfa i allu bwrw ymlaen efo'r prosiect hwn yn sgil yr oedi a fu dros y flwyddyn ddiwethaf.

4.1.8 Pwrpas y prosiect Cyflwr ac Addasrwydd yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. Yn ystod y flwyddyn, fel gyda'r flwyddyn flaenorol, bu i effaith prisiau deunyddiau adeiladu yn sgil Covid a Brexit effeithio ar ein gallu i wireddu rhai o'n cynlluniau i wella cyflwr ac addasu adeiladau rhai ysgolion. Yn sgil hynny, yn ystod y flwyddyn bu'r Adran Addysg ar y cyd gyda'r Adran Tai ac Eiddo yn ail-edrych ar y cynlluniau gan ystyried beth y gellir ei gyflawni'n ymarferol ar sail blaenoriaeth yn sgil yr angen i orfod cyfarch costau uwch gyda'r gyllideb sydd ar gael. Er hynny, rwy'n falch o ddweud y llwyddwyd i gwblhau'r buddsoddiad yng nghyflwr ac addasrwydd Ysgol Bethel, Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Cymerau yn ystod y flwyddyn, gyda gwaith yn parhau ar safleoedd Ysgol Llanrug ac Ysgol Botwnnog, ynghyd â gwaith ar fin cychwyn yn Ysgol Eifionydd ac Ysgol Syr Hugh Owen.

4.2 **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad**

4.2.1 Yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, mae'r Adran Addysg a'r Cyngor wedi adnabod y gagendor lles a chyrhaeddiad fel un o'r prif flaenoriaethau yn sgil pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles.

4.2.2 Y tu hwnt i'r ysgol, mae dau gyfnod ym mywyd plant a phobl ifanc wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth o ran ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad, sef plant 0-5 oed, ynghyd â phobl ifanc ôl-16. Yn sicr, mae'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saerño ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. Mae'r grŵp prosiect wedi cytuno ar ffrydiau gwaith penodol ac wedi blaenoriaethu cynnal asesiad digonolrwydd darpariaeth gofal ac addysg ar draws yr awdurdod. Ar yr un amser mae gwaith yn cael ei wneud ar fodelau ariannu gwahanol ynghyd ag oblygiadau pryddlesi rhwng darparwyr a Chyngor Gwynedd.

4.2.3 Hefyd mae'r grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan y pandemig gan fod mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Mae bwriad i roi sylw penodol er mwyn lliniaru unrhyw sgil- effeithiau gan sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu. Yn gysylltiedig â'r grŵp oedran yma, rwy'n hynod o falch o nodi ein bod wedi diddymu'r ffi ar gyfer y tocyn teithio ôl-16 i'n holl ddysgwyr o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd hyn yn gyfrwng i annog dysgwyr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith (NEETS) yn ôl i addysg. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau nad ydym fel Cyngor yn gosod unrhyw rwystrau rhag galluogi ein pobl ifanc i barhau a'u haddysg wedi 16 oed, ac yn bwysicach fyth y dyddiau hyn o ystyried y cynnydd aruthrol yng nghostau byw. Yn y cyd-destun yma hefyd, rwyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar gost y diwrnod ysgol, ac rwyf wedi cysylltu gydag ysgolion yn gofyn iddynt beidio newid gwisg ysgol a bod yn effro i gostau gwisg ysgol i rieni a theuluoedd.

4.2.4 I gefnogi llesiant ein plant a'n pobl ifanc, mae'r Adran hefyd yn gweinyddu'r grant tloidi mislif sy'n dod yn flynyddol gan y Llywodraeth. Drwy gydweithio'n drawsadrannol gyda gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor a chyda mentrau

cymunedol rydym yn cyrraedd trigolion ar hyd a lled y sir, gan ddarparu nwyddau eco gyfeillgar ac aml-ddefnydd i unrhyw un sydd eu hangen a hynny am ddim. Yn ychwanegol, mae cyflenwad ar gael ym mhob ysgol drwy'r sir a hynny mewn modd urddasol sy'n osgoi embaras i'n plant a'n pobl ifanc.

4.3 Cinio am ddim yn yr ysgolion cynradd

- 4.3.1 Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd ar draws Cymru. Ers y cyhoeddiad mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a'r Tîm Datblygu Eiddo sydd yn golygu ein bod o flaen yr amserlen genedlaethol ar gyfer darparu cinio am ddim i holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd.
- 4.3.2 O ddechrau Medi ymlaen mae pob dysgwr ym Mlwyddyn Derbyn ac Un yng Ngwynedd yn cael cynnig cinio ysgol am ddim, ers dechrau Ionawr mae holl ddysgwyr Blwyddyn 2 yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim, ac erbyn Medi 2023 anelwn at sicrhau y bydd holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd yn derbyn cinio ysgol am ddim. Rwyf yn awyddus i gynifer o deuluoedd â phosibl fanteisio ar ginio ysgol am ddim, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol presennol, ac felly byddaf yn gofyn i'r Adran wneud popeth posibl i annog cynifer o deuluoedd â phosibl i fanteisio ar y cynllun hwn.

4.4 Cydweithio Meirionnydd

- 4.4.1 Pwrpas y prosiect yma yw edrych yn benodol ar sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd. Mae'r cynnydd ar y prosiect wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd.
- 4.4.2 Serch hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Mae trafodaethau pellach i'w cynnal gyda'r ysgolion er mwyn cydweithio i ganfod datrysiadau posib i heriau capasiti a recriwtio a chadw staff ym Meirionnydd.

4.5 Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc

- 4.5.1 Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol Covid ar safonau'r Gymraeg, yn ystod y flwyddyn bu i'r adran gasglu data drwy gyfrwng amrywiol holiaduron er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg ein plant a'n pobl ifanc. Roedd y dystiolaeth o'r holiaduron yn dangos mai sgiliau llafaredd oed y pryder mwyaf ar draws y sir.

4.6 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

- 4.6.1 Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig. Mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r Adran Addysg a gwasanaethau Dysgu a Datblygu'r Cyngor hefyd wedi cydweithio i ddatblygu pecyn hyfforddiant ym maes trais domestig. Mae'r pecyn

Gofyn a Gweithredu wedi ei ddatblygu ar y cyd ac yn parhau i gael ei gyflwyno i staff yr Adran Addysg.

4.6.2

Pwrpas y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yw sicrhau darpariaeth a chefnogaeth addas i'n dysgwyr mwyaf bregus. Rwy'n hynod o falch o allu adrodd fod y gwaith o drosglwyddo o'r hen Ddeddfwriaeth AAA i'r Ddeddfwriaeth ADY newydd yn parhau i gadw momentwm ac ar drac, ac mae'r defnydd o Feini Prawf newydd wedi cael eu hymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am ddulliau holistaidd. Mae'r gwaith o addasu'r model darpariaeth cynhwysiad wedi cymryd lle ac yn weithredol erbyn hyn. Er hynny, rydym yn ymwybodol fod ymddygiadau plant a phobl ifanc yn peri pryder yn y cyfnod ôl—bandemig, a bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw i hyn yn y dyfodol agos er mwyn cefnogi ein hysgolion.

4.6.3

Rwy'n hynod falch o barodrwydd ein hysgolion i ymgymryd â gofynion y cwricwlwm newydd, sef Cwricwlwm i Gymru. Yma, hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad i GwE sef y gwasanaeth gwella ysgolion a gomisiynir gan yr Adran Addysg i gefnogi ein hysgolion ym maes y cwricwlwm. Fel y gwyddoch, mae rhai agweddau o'r cwricwlwm wedi derbyn sylw cyhoeddus dros y misoedd diwethaf, megis y cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb sydd wedi bod yn heriol, ond rwy'n hynod falch o broffesiynoldeb ein hysgolion wrth ymateb i'r gofyn hwn, ac wrth iddynt barhau fel bob amser i gefnogi ein dysgwyr yn y maes hynod bwysig hwn.

4.6.4

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Ysgol Eifionydd ac Ysgol Tryfan ym Mangor, ond mae oedi gyda'r broses gynllunio'n golygu fod amserlen safle Tywyn wedi llithro, ac felly, mae safle addysg drochi dros dro wedi cael ei sefydlu yn Ysgol Bro Idris o ddechrau Ionawr 2023 ymlaen.

4.6.5

Rwyf hefyd yn hynod o falch o gefnogaeth unfrydol y Cabinet ar 19eg Gorffennaf 2022 i symud ymlaen i gyflwyno achos fusnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid o £1.1m pellach o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu gweddill Canolfannau Iaith Cynradd y sir sef Maesincla, Llanybi a Dolgellau.

4.6.6

Yn ogystal mae llawer o waith cyffrous wedi digwydd yng nghyd-destun arian grant refeniw Llywodraeth Cymru. Mae staff y Gyfundrefn a'r awdures Anni Llŷn wedi ysgrifennu cynllun trochi newydd yn seiliedig ar bentref dychmygol Aberwla. Mae'n gynllun sy'n ymgorffori patrymau iaith priodol o fewn y continiwm iaith yng Nghwricwlwm i Gymru. I gefnogi'r cynllun rydym mewn cydweithrediad â chwmni 'Animated Technologies' wedi datblygu elfen rithwir i'r pentref. Dyma brosiect arloesol sy'n galluogi ein hwyrdyfiaid i gamu i Aberwla ar blatfform rithwir i ymarfer patrymau iaith yn yr archfarchnad. Yno cânt gyfle i chwarae gemau efo'i gilydd wrth lenwi eu basged trwy ddarllen cyfarwyddiadau a dilyn rhestr siopa.

- 4.6.7 Rwy'n hynod o falch fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i rannu'r adnodd arloesol hwn a grëwyd yng Ngwynedd yn genedlaethol ac mae trafodaethau ar y gweill i wneud hynny yn y dyfodol agos. Dyma gydnabyddiaeth i'n gweledigaeth arloesol, ac fel cyfundrefn rydym yn ymfalchïo yn yr adnodd rhithwir arloesol hwn ac yn falch o'r cyfle i'w rannu er budd dysgwyr a chefnogi nod y Llywodraeth yn *Cymraeg 2050* ar hyd a lled Cymru.
- 4.6.8 Ym mis Medi, bu staff y Gyfundrefn Drochi hefyd yn darparu hyfforddiant ar egwyddorion trochi i holl weithlu Cyfnod Sylfaen ein hysgolion, yn athrawon a chymorthyddion. Cynhaliwyd yr hyfforddiant fesul dalgylch, gyda'r gobaith ei fod o gymorth i ysgolion allu trochi dysgwyr ieuengaf ein cyfundrefn ysgolion yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl.
- 4.6.9 Ar yr un pryd, mae gan y Canolfannau Iaith (Cefn Coch yn benodol) draddodiad hir o ddarparu cynhaliath Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau'r flwyddyn, dw i'n awyddus i weld parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.
- 4.6.10 Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn ddogfen statudol ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn i ni gynllunio'n strategol dros gyfnod o ddeng mlynedd ar gyfer twf a chynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bu ymgynghoriad llawn ar ddrafft o CSGA newydd Gwynedd yn nhymor yr Hydref 2021, ac yn dilyn hynny, aeth y CSGA gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth ym mis Mawrth 2022, a gerbron y Pwyllgor Iaith ddechrau'r haf. Rwy'n hynod o falch y bu iddo dderbyn cymeradwyaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 24 Mehefin 2022, ac yn sgil hynny, mae'r CSGA newydd wedi dod i rym ar 1 Medi 2022. Mae'r Adran, yr ysgolion a'r holl weithlu addysg rŵan wedi cychwyn gweithredu yn unol â'r ymrwymadau a nodir yn y ddogfen, ac mae'r Adran wedi sefydlu Fforwm Iaith Addysg er sicrhau cynnydd priodol yn erbyn pob un o'r deilliannau. Byddaf yn edrych ymlaen i roi diweddariad pellach i chi ar y CSGA yn fy adroddiad nesaf i chi.
- 4.6.11 Ochr yn ochr â'r CSGA, ar 1 Medi 2022 daeth y drefn gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i rym hefyd. Yn sgil Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae pob un o ysgolion cynradd Gwynedd (namyn un) yn disgyn i gategori 3, tra bod pob un ysgol uwchradd (namyn 2) yn disgyn i gategori 3 yn unol â'r diffiniad hefyd. Bydd yr Adran yn gweithio gyda'r holl ysgolion categori 3 rŵan er sicrhau cynnydd priodol, ac nad oes unrhyw ysgol yn cymryd cam yn ôl o safbwynt eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd yr Adran hefyd yn sicrhau cefnogaeth fwy dwys i'r 3 ysgol sydd yng nghategori 3T (trosiannol) er sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol ar hyd y continiwm iaith, ac edrychaf ymlaen i adrodd ar gynnydd y gwaith yma yn fy adroddiad perfformiad nesaf.
- 4.6.12 Pwrpas y gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yw darparu bwyd maethlon ac iachus i ddysgwyr ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i gyrraedd eu potensial. Yn ddiweddar, mae'r

gwasanaeth yma wedi bod yn cynllunio a gweithredu i allu darparu cinio am ddim i bob plentyn blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1 erbyn Medi 2022, a phob plentyn Blwyddyn 2 erbyn Ionawr 2023.

- 4.6.13 Ers ei sefydlu yn Medi 2019 mae'r Ganolfan Fusnes Ysgolion wedi cynnig nifer o wasanaethau allweddol i'n ysgolion gan gynnwys rheolaeth ariannol, gweinyddu penodiadau, trefnu athrawon llanw, a sicrhau fod system gwybodaeth am ddisgyblion yn gyfredol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddatblygu gwasanaethau gweinyddol ychwanegol gan gynnwys y cynllun ateb galwadau ffôn, cynllun sydd wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn. Mae archebion gan ysgolion ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau drwy gerdyn credyd y Ganolfan Fusnes Addysg yn parhau i fod o fudd i'r ysgolion. Eleni mae'r gwasanaeth wedi datblygu mewnwyd gynhwysfawr sydd yn cynnwys adnoddau defnyddiol mewn un lleoliad hwylus, fe fydd hwn yn cael ei rannu a phob ysgol yn y flwyddyn newydd. Mae'r ganolfan yn esblygu'n barhaus i allu cynnig rhagor o wasanaethau i ysgolion yn y dyfodol, gan chwilio am bob cyfle i leihau baich gwaith penaethiaid.
- 4.6.14 Rhaid cydnabod mai crynodeb yn unig a geir yn yr adroddiad o holl waith yr Adran a'r ysgolion dros y misoedd diwethaf, ac o ganlyniad hoffwn gydnabod a nodi fy ngwerthfawrogiad i'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn yr Adran ac yn ein hysgolion er sicrhau'r addysg gorau i'n plant ynghyd â diogelwch, iechyd a lles ein holl ddysgwyr a staff.

5. SEFYLLFA ARBEDION

- 5.1 Mae'r Adran wedi cyflawni holl gynlluniau arbedion hanesyddol. Nid oes gan yr Adran dargedau arbedion yn 2022/23.

6. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg.